Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gweithredwr yr Ystafell Reoli Gwasanaeth Tân

## Ystafell Reoli

Cyfnod Penodol 12 Mis - Cyfleoedd Llawn a Rhan Amser

**Pecyn Gwybodaeth Recriwtio**

# Cynnwys

Croeso gan Ant Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol . . . . . . 3

Pwy ydym ni. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4

Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef 6

Y Rôl . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7

Gallwn gynnig i chi . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8

Disgrifiad Swydd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9

Manyleb y Person . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 12

Sgiliau Cymraeg . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14

Sut i ymgeisio. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 15



# Croeso gan Ant Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol



Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, byddant yn tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i alwadau brys, ac er bod hyn yn wir, mae eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lawer ehangach na'r delweddau traddodiadol hyn.

Yn ogystal â Diffoddwyr Tân, cyflogir pobl mewn amrywiaeth o rolau heriol ac amrywiol, ac mae'r gwaith hanfodol a wneir tu ôl i'r llen yr un mor hanfodol i sicrhau fod Gogledd Cymru'n ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

Mae Staff yr Ystafell Reoli yn gwneud mwy na dim ond ateb galwadau brys ac yn anfon peiriannau tân allan. Maen nhw'n chwarae rhan hanfodol yn sicrhau bod digwyddiadau'n cael diweddglo llwyddiannus drwy ddefnyddio technegau arbenigol ar gyfer ymdrin â galwadau. Mae swyddogaeth y Gwasanaeth Tân wedi newid yn fawr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae swyddogaeth Gweithredwyr yr Ystafell Reoli wedi addasu i aadlewyrchu'r gofynion newydd sy'n wynebu Gwasanaeth Tân ac Achub modern.

Rhaid i staff yr Ystafell Reoli fod yn barod i roi cynghorion ar achub bywyd i bobl sy'n galw, cyfleu gwybodaeth a negeseuon hanfodol, ymateb i geisiadau gan y Swyddog â Gofal am ddigwyddiad, cysylltu â gwasanaethau brys a sefydliadau eraill ac olrhain argaeledd adnoddau brys. Mae gwaith gweinyddol arferol yn dasgau eraill.

Ein gwerthoedd craidd yw ymgyrraedd at ragoriaeth, gan wasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym yn awyddus i gael pobl sydd â'r un gwerthoedd i ymuno â'n tîm i'n helpu i wneud Gogledd Cymru'n ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff mewn rolau gweithredol a chymorth.

Rydym yn helpu i ddiogelu ardal tua 2,400 milltir sgwâr gyda phoblogaeth amcangyfrifiedig o dros 700,000 yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr sy’n dod i Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Byddwn yn gweithio llawer iawn ar gynlluniau i atal tân drwy ymweld â phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, siarad gyda phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu ac i rannu gwybodaeth gyda chymunedau lleol. Byddwn hefyd i’n gweld yn gyson ar y cyfryngau gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

Rhan arall o’n gwaith yw rôl gorfodaeth diogelwch tân, felly byddwn yn ymweld â busnesau a gweithleoedd i wneud yn siŵr fod y bobl sy’n gyfrifol am yr adeiladau yn cynnal safon eu trefniadau diogelwch.


Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio ynddo. Gallwn gynnig diwylliant cefnogol lle byddwn yn gweithio’n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf.

Am fwy o wybodaeth am y Gwasanaeth, ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd








www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales

# Gogledd Cymru; Lle i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef

Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych yn chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y Deyrnas Unedig, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae rhywbeth i bawb ei fwynhau. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n fawr at yr economi leol gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu'r gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn, o linellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr i deithiau cerdded mwy hamddenol i archwilio trefi a chefn gwlad neu ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Tra bod Gogledd Cymru yn agos at natur ac â mannau agored cyfagos, y mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr yng Ngogledd-Orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y Deyrnas Unedig, gyda threnau uniongyrchol i Lundain (mewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Mae digonedd o leoedd bwyta yn defnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, gan gynnwys pysgod sydd newydd eu dal, cig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, gyda rhywbeth i weddu i bawb, gan gynnwys bwytai ysblennydd, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r Cymry'n llawn angerdd am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae Eisteddfodau sy'n llawn cerddoriaeth, barddoniaeth a chelf yn cael eu cynnal yn flynyddol. Maent yn cynnig llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n gynhwysol i bawb felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i allu ymweld a mwynhau'r diwrnod. Anogir pobl o bob oed a gallu, gan gynnwys dysgwyr Cymraeg, i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gyda'r Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen yn cael ei chynnal yn flynyddol ym mis Gorffennaf, gan ddod â chyfranogwyr o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a'r celfyddydau mewn un lle.

# Y Rôl



Pan fydd rhywun yng Ngogledd Cymru yn deialu 999/112 ac yn gofyn am y Gwasanaeth Tân ac Achub, byddan nhw'n mynd drwodd i staff yr Ystafell Reoli yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn Llanelwy.

Mae'r Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn gyfleuster cydweithreol lle mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhannu llawr gweithredol â Heddlu Gogledd Cymru. Dyma ddull arloesol o weithio ar y cyd rhwng gwasanaethau brys, sy'n rhoi Gogledd Cymru yn flaenllaw o ran gweithrediadau 999 sy'n defnyddio cyfarpar gorchymyn a rheoli modern gyda'r dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer anfon allan a chyfathrebu.

Mae staff yr Ystafell Reoli yn gyfrifol am anfon criwiau a pheiriannau allan ar unwaith o'r 44 o orsafoedd sydd ar draws Gogledd Cymru, ynghyd ag unrhyw gyfarpar arbenigol sydd ei angen. Mae galwadau brys yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau, fel tanau, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, digwyddiadau sy'n ymwneud â deuyddiau peryglus, llfogydd a llawer mwy.

Mae staff ar gael yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae staff Ystafell Reoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithio mewn timau ac mae ganddynt dechnoleg gwybodaeth soffistigedig i'w helpu i ddelio â galwadau brys ac ar gyfer anfon yr adnodd cyflymaf a mwyaf priodol o unrhyw un o'n gorsafoedd tân i unrhyw leoliad yng Ngogledd Cymru.

Nid yn unig ateb galwadau brys ac yn anfon peiriannau tân allan mae Gweithredwr yr Ystafell Reoli Gwasanaeth Tân yn ei wneud. Maen nhw hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn sichrau diweddglo llwyddiannus i ddigwyddiadau drwy ddefnyddio technegau arbenigol ar gyfer ymdrin â galwadau. Mae angen i staff yr Ystafell Reoli gael amrywiaeth o sgiliau, a gallu meddwl yn gyflym a chyfleu cyfarwyddiadau'n gywir. Maen nhw'n gofalu am ddata cynhwysfawr mewn amrywiaeth o bynciau, fel digwyddiadau brys, argaeledd adnoddau a gwybodaeth am risg.

Rhaid i staff yr Ystafell Reoli fod yn barod i roi cynghorion am achub bywydau i bobl sy'n galw, cyfleu gwybodaeth a negeseuon hanfodol, ymateb i geisiadau gan y Swyddog â Gofal am ddigwyddiad, cysylltu â gwasanaethau brys a sefydliadau eraill ac olrhain argaeledd adnoddau brys. Mae gwaith gweinyddol arferol yn dasgau eraill.

Mae'r Ganolfan Cyfathrebiadau ar y Cyd yn darparu gwasanaeth dwyieithog ac adnabyddiaeth leol arbenigol,i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru pan fyddan nhw'n galw am gymorth.

# Gallwn gynnig i chi

## Tâl

Cyflog: Yn dechrau ar £28,865, yn codi i £36,937 y flwyddyn (pro-rata os yn gweithio'n rhan amser) pan fyddwch yn gwbl gynwys (o leiaf ddwy flynedd).

## Oriau gwaith

Bydd y chwe wythnos gyntaf yn cael eu treulio mewn ystafell ddosbarth o ddydd Llun i ddydd Gwener 0900 – 1700 o'r gloch. Yna, byddwch yn cael patrwm shifftiau, ac yn gweithio 42 awr yr wythnos fel shifftiau (os yn llawn amser), i roi darpariaeth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos mewn amgylchedd Ystafell Reoli Weithredol, a hynny er mwyn cadarnhau'r hyfforddiant a'r sgiliau.

## Buddion y swydd

- Hawl i wyliau blynyddol hael, yn cychwyn ar 24 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau cenedlaethol
- Darparu gwisg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithredwr yr Ystafell Reoli Gwasanaeth Tân (Diffoddwr(wraig) Tân Ystafell Reoli) |
| **Adran** | Ystafell Reoli |
| **Atebol i** | Rheolwr Gwylfa |
| **Lleoliad** | Y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd, Llanelwy |

## Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Derbyn, dyfynnu a chofnodi gwybodaeth gan alwyr ac asiantaethau eraill mewn perthynas  â cheisiadau am gymorth mewn argyfwng ac achosion nad ydynt yn rhai brys. Anfon adnoddau addas sy'n diwallu anghenion y digwyddiad yn unol â'n polisïau a'n gweithdrefnau.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Monitro argaeledd Adnoddau gweithredol, rheoli gwybodaeth i gefnogi'r penderfyniadau i ddarparu gwasanaeth gweithredol.
2. Derbyn galwadau brys, gan sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei chasglu i gynorthwyo ymateb effeithiol.
3. Anfon adnoddau gweithredol yn unol â pholisi'r Gwasanaeth.
4. Cefnogi anghenion y galwr, gan adnabod risgiau i'w diogelwch, rhoi cyngor ar ddiogelwch a chyfarwyddyd ar oroesi.
5. Hysbysu gwasanaethau argyfwng eraill fel y bo angen yn unol â pholisi'r Gwasanaeth.
6. Cefnogi anghenion y gymuned trwy hysbysu asiantaethau'r cyfryngau o'r hyn sy'n digwydd, o fewn eich maes cyfrifoldeb chi.

7. Cefnogi anghenion y gymuned trwy roddi cyngor ar ddiogelwch tân, sy’n dod o fewn eich maes cyfrifoldeb chi.
8. Monitro cyfathrebu radio a theleffoni i gefnogi anghenion parhaus y digwyddiad.
9. Cynnal dibynadwyedd a pharodrwydd cyfarpar gweithredol rheoli, yn sylfaenol ac eilaidd. Adrodd am ddiffygion fel y bo angen.
10. Derbyn a throsglwyddo galwadau gweinyddol, casglu a dosbarthu gwybodaeth.
11. Cefnogi datblygiad cydweithwyr yn y gweithle.
12. Diweddaru cofnodion Rheoli a gwybodaeth ystadegol ar systemau a chronfeydd data priodol.
13. Cymryd cyfrifoldeb am hunan-ddatblygiad a pherfformiad effeithiol. Mynychu cyrsiau/sesiynau hyfforddi fel y bo angen.
14. Glynu at Bolisi Cyfle Cyfartal y Gwasanaeth fel y cofnodwyd yn Rheolau’r Gwasanaeth ac fel y manylwyd yn y Llawlyfr Cyfle Cyfartal.
15. Glynu at Ddiogelwch Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.
16. Cydymffurfio â Safonau’r Iaith Gymraeg sy’n berthnasol i’r Gwasanaeth
17. Cynorthwyo gydag arddangosfeydd ymarferol neu ymwelwyr â’r ystafelloedd Rheoli yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Gwylfa.
18. Glynu at ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau’r Gwasanaeth a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a’ch diogelwch chi a phobl eraill a all gael eu heffeithio’n andwyol gan weithredoedd neu anweithredoedd.

## Cysylltiadau y tu allan i Adran y Swydd

Y cyhoedd, Gweithwyr o adrannau eraill, Aelodau’r Awdurdod Tân, Asiantaethau Allanol megis Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, yr Heddlu, WAST a Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Amodol ar Archwiliad Cefndir Personol Lefel 2 nad ydyw'n archwiliad Heddlu

## Hyfforddiant Hanfodol

Hyfforddiant recriwtiaid, Modiwlau Datblygiad Diffoddwr Tân Ystafell Rheoli. Canllawiau achub bywyd.

Diploma Lefel 3 mewn Trin Cyswllt y Gwasanaethau Brys neu gyfwerth.

## Arall

Amgylchedd reoledig mewn swyddfa agored.

# Manyleb y Person

## Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad

| |
|---|
| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| Safon dda o addysg – gan gynnwys TGAU neu gyfwerth mewn pynciau’n gysylltiedig â Saesneg a Mathemateg. |
| Profiad o weithio a chymryd penderfyniadau amserol dan bwysau, cynnal agwedd hyderus a chadarn mewn sefyllfaoedd heriol. |
| Profiad o agwedd sy’n canolbwyntio ar y cwsmer. |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy’n bodloni’r holl feini prawf hanfodol |
| Gwybodaeth drwyadl o systemau a gweithdrefnau anfon a chyfathrebu. |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o waith y Gwasanaeth Tân ac Achub o ran Cyflenwi Gwasanaeth. |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o’r ardaloedd daearyddol a wasanaethir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub perthnasol. |
| Trwydded Yrru Ddilys DU. |

## Sgiliau a Galluoedd

| |
|---|
| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| Sgiliau cyfathrebu effeithiol gan ddefnyddio arddull briodol yn enwedig wrth weithio dan bwysau neu wrth ddelio â phobl â all fod yn bryderus neu'n drallodus. |
| Tystiolaeth o sgiliau cael gafael ar ddata a theipio ar fysellfwrdd gyda lefel uchel o gywirdeb (caiff y cyflymder a'r cywirdeb ei asesu fel rhan o brofion technegol y broses ddethol). |
| Y gallu i ddeall, cofio, defnyddio a mabwysiadu gwybodaeth berthnasol mewn dull, trefnus, diogel a systematig. |
| Arddangos gallu i weithio'n llwyddiannus mewn tîm mewn amgylchedd strwythuredig. |
| Tystiolaeth o hyblygrwydd i gyflawni perfformiad personol a thîm parhaus trwy ddatblygu eich hunan ac eraill. |
| Tystiolaeth a agwedd gydwybodol a rhagweithiol tuag at waith i gyflawni a chynnal safonau rhagorol. |
| Medru cyfathrebu'n llafar trwy gyfrwng y Gymraeg i safon Lefel 4. |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| Arddangos agwedd sy'n agored i newid a phrofiad o'i gefnogi'n weithredol. |
| Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo trefn waith ddiogel ac effeithiol. |
| Gallu siarad iaith arall. |

*Bydd angen cyflwyno tystiolaeth o gymwysterau i'w gwirio cyn cadarnhau'r apwyntiad.

# Sgiliau Cymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, credwn y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ymwneud â bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn ymfalchïo ein bod wedi cymryd mater yr iaith o ddifrif ers blynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswydd foesol a chyfreithiol i amddiffyn etifeddiaeth ddiwylliannol yr ardal a chyfarfod â disgwyliadau'r gymuned leol, rydym hefyd yn cydnabod buddiannau cadarnhaol y gwasanaeth i weithredu ein holl fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Achub bywydau a lleihau risg yw calon ein gwaith – ac mae mater yr iaith yn hanfodol i lwyddiant hyn.

Lefel 4 yw gofynion yr iaith Gymraeg ar gyfer y swydd hon ac fe nodir y sgiliau gofynnol isod.

| Maes Sgil | Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | • Cynnal sgwrs achlysurol estynedig ynglŷn â materion gwaith neu allu gwneud cyflwyniad gyda lefel dda o ruglder ac ystod mynegiant. Mae'n bosib y byddai angen i chi newid i iaith arall ar brydiau i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol.<br>• Gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd a seminarau o fewn maes eich gwaith.<br>• Dadlau o blaid/yn erbyn achos. |
| **Darllen** | • Gallu darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym cyn belled nad oes defnydd o eirfa anarferol ac nad oes gwybodaeth gymhleth neu dechnegol o'i fewn. |
| **Ysgrifennu** | • Gallu paratoi llythyrau ffurfiol o nifer o fathau cyfarwydd megis ymholiad, cwyn, cais ac ymgeisio.<br>• Gallu gwneud nodiadau'n bur fanwl mewn cyfarfodydd neu arddywediad syml.<br>• Gallu ysgrifennu adroddiad /dogfen sy'n berthnasol i faes y swydd |

# Sut i ymgeisio

| Dyddiad Cau | 24/11/2025 am 12pm |
| --- | --- |

Mae'r ffurflenni cais i'w gweld ar dudalen Swyddi Gwag ein gwefan.

Dylid dychwelyd y ffurflenni cais ar e-bost i recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru neu drwy gysylltu â'r Tîm Recriwtio ar 01745 535281 am wybodaeth bellach.

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Os ydych chi'n awyddus i ni ystyried addasiad rhesymol, gadewch i ni wybod mewn da bryd, os gwelwch yn dda.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth recriwtio fel eich bod yn deall y rôl a'r gofynion ynglŷn â chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r swydd hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, cysylltwch a'r Ystafell Reoli ar 01931 522006.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.